**Hawdd ei Ddeall**

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

# Fy nghynlluniau ar gyfer deddf awtistiaeth newydd yng Nghymru

## Gan Paul Davies, Aelod Cynulliad Preseli Sir Benfro



Rydw i eisiau gwybod beth rydych chi'n feddwl. Atebwch y cwestiynau os gwelwch yn dda erbyn **20 Tachwedd 2017**

Dyma fersiwn hawdd ei ddeall o **'Ymgynghoriad ar y Mesur Awtistiaeth (Cymru) arfaethedig'**

**Awst 2017**

# Sut i ddefnyddio'r ddogfen hon



Fersiwn hawdd ei ddeall yw hwn. Mae'r geiriau a'r hyn maen nhw'n feddwl yn hawdd i'w darllen a'u deall.

Efallai na fedrwch chi ddarllen a deall y ddogfen hon heb help. Gofynnwch i rywun rydych chi'n ei adnabod i'ch helpu.

Efallai bydd rhai geiriau yn anodd i'w deall. Mae'r rhain wedi cael eu hysgrifennu mewn **glas trwm** a dywedir beth maen nhw'n feddwl mewn bocs o dan y gair.

Os bydd unrhyw un o'r geiriau yn cael eu defnyddio eto yn y llyfryn byddan nhw'n cael eu dangos mewn ysgrifennu glas cyffredin. Os gwelwch chi eiriau mewn ysgrifennu glas cyffredin, gallwch edrych beth maen nhw'n feddwl mewn **Geiriau anodd** ar dudalen 23.



Lle mae'r ddogfen yn dweud 'fi' neu 'fy', mae hyn yn meddwl Paul Davies.

I gael rhagor o gopïau cysylltwch gyda:
Tom Jackson
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Tŷ Hywel
Bae Caerdydd
CF99 1NA

Ffôn: 0300 200 6565

E-bost: Consultation.AutismBill@assembly.wales

Cafodd y ddogfen hon ei gwneud yn hawdd ei deall gan Hawdd ei Ddeall Cymru gan ddefnyddio Photosymbols.

# Cynnwys

**Tudalen**


| | |
|---|---|
| **Sut i ddefnyddio’r ddogfen hon** | **2** |
| **Cyflwyniad** | **4** |
| **Beth ydy awtistiaeth** | **7** |
| **Nod y Mesur Awtistiaeth (Cymru)** | **8** |
| **Pam ein bod angen Mesur Awtistiaeth (Cymru)** | **10** |
| **Cael ffordd well o adnabod awtistiaeth** | **12** |
| **Gwella’r ffordd y mae pobl yn cael gwasanaethau cefnogi** | **13** |
| **Hyfforddiant awtistiaeth i staff** | **15** |
| **Swyddi i bobl gydag awtistiaeth** | **17** |
| **Y diffiniad o awtistiaeth** | **18** |
| **Faint y gallai fy Mesur yn gostio** | **19** |
| **Sut y gallai fy Mesur arbed arian** | **21** |
| **Pethau eraill i feddwl amdanyn nhw** | **22** |
| **Geiriau anodd** | **23** |

# Cyflwyniad



Fy enw ydy Paul Davies. Rydw i yn **Aelod Cynulliad (AC)** dros Preseli Sir Benfro.



Mae **Cynulliad Cenedlaethol Cymru** wedi cytuno i adael imi geisio cael deddf newydd i Gymru.




Rydw i eisiau'r ddeddf newydd yma i helpu plant ac oedolion yng Nghymru sydd ag awtistiaeth i gael y gefnogaeth maen nhw angen..




Rydw i'n galw 'r ddeddf yma yn **Fesur Awtistiaeth (Cymru)** neu'r **Mesur** i fod yn fyr.




Mae gennyf tan **13 Gorffennaf 2018** i ysgrifennu'r Mesur Awtistiaeth (Cymru). Yna fe fydd Aelodau Cynulliad eraill yn edrych arno a nhw fydd yn penderfynu os y dylai ddod yn ddeddf.



Rydw i eisiau gwybod beth rydych chi'n feddwl ddylai fod yn y Mesur. Rydw i eisiau eich meddyliau a'ch syniadau os gwelwch yn dda.



Pan fydd y Mesur yn cael ei ysgrifennu am y tro cyntaf fe fyddaf yn rhoi cyfle i bawb ei ddarllen a chael dweud eu dweud unwaith eto.

Yn y ddogfen yma rydw i wedi ysgrifennu am:




- beth rydw i eisiau i'r Mesur wneud
- beth rydw i'n meddwl ddylai fod yn y Mesur
- pam rydw i'n meddwl bod angen y Mesur yma.




Mae cwestiynau i chi eu hateb am bob rhan. Maen nhw mewn ffurflen ymateb ar wahân.





Anfonwch eich atebion yn ôl os gwelwch yn dda erbyn **20 Tachwedd 2017**.



Bydd eich atebion yn cael eu darllen gen i a staff yng **Nghynulliad Cenedlaethol Cymru**.



Efallai y byddaf hefyd yn dangos i bobl beth rydych chi wedi'i ysgrifennu trwy ei roi ar y rhyngrwyd – ar wefan Cynulliad Cenedlaethol Cymru.




Os nad ydych chi eisiau dangos eich enw, rhowch wybod imi os gwelwch yn dda.




Fe fyddwn ni'n gofalu am eich gwybodaeth bersonol. Fe fyddwn ni'n dilyn y gyfraith ynglŷn â chadw gwybodaeth bersonol.



Os oes rhywbeth yn eich poeni neu os oes gennych gwestiynau am sut rydyn ni'n mynd i ddefnyddio eich gwybodaeth, cysylltwch gyda: Consultation.AutismBill@assembly.wales



Gallwch ateb yn Gymraeg neu yn Saesneg.

Diolch am eich amser.

Paul Davies

Aelod Cynuliad Preseli Sir Benfro.

# Beth ydy awtistiaeth



Awtistiaeth ydy'r enw byr ar amrediad o anhwylderau o'r enw Anhwylder Sbectrwm Awtistig (ASD).



Weithiau mae pobl gydag awtistiaeth yn cael eu hadnabod fel pobl awtistig.

Efallai hefyd bod gan bobl gydag awtistiaeth bethau eraill fel:



- anabledd dysgu



- cyflwr iechyd meddwl.



Yn y ddogfen yma fe fyddaf yn defnyddio'r term 'pobl gydag awtistiaeth.'

# Nodau Mesur Awtistiaeth (Cymru)

Rydw i eisiau i'r Mesur:




- Gwneud i Lywodraeth Cymru ysgrifennu **strategaeth awtistiaeth**. Fe fydd y strategaeth yn dweud sut y dylai gwasanaethau ateb anghenion pobl gydag awtistiaeth yng Nghymru.

Mae **strategaeth** yn gynllun sy'n dweud beth y byddwn ni'n ei wneud i gyrraedd ein nod i gael y gefnogaeth sydd eu hangen arnyn nhw i bobl ag awtistiaeth.




- Gwneud i Lywodraeth Cymru ysgrifennu **canllaw** am sut i ddilyn y strategaeth awtistiaeth.

**Canllaw** ydy cyngor a gwybodaeth. Fe fydd yn cael ei ysgrifennu. Fe fydd yn helpu i esbonio beth ydy'r ddeddf. Ac fe fydd yn dweud sut i ddilyn y strategaeth awtistiaeth.



- Ei gwneud yn haws i gael **diagnosis** awtistiaeth.

**Diagnosis** ydy pan mae meddyg yn edrych ar iechyd ac ymddygiad person ac yn dweud os oes ganddyn nhw awtistiaeth neu beidio.




- Gwneud yn siŵr bod awdurdodau lleol a gwasanaethau iechyd yn helpu pobl gydag awtistiaeth i gael y gefnogaeth maen nhw ei angen pan maen nhw ei angen.



- Darganfod ffordd o gael gwybodaeth am faint o bobl sydd ag awtistiaeth a beth maen nhw ei angen. I wneud yn siŵr bod cefnogaeth yn cael ei gynllunio'n gywir.



- Gwneud yn siŵr bod staff sydd yn gweithio gyda phobl gydag awtistiaeth wedi cael hyfforddiant.




- Gwneud yn siŵr bod awdurdodau lleol a gwasanaethau iechyd yn rhoi gwybodaeth am y gwasanaethau maen nhw'n eu cynnig i bobl gydag awtistiaeth.



- Gwneud yn siŵr bod Llywodraeth Cymru yn dal i edrych ar y strategaeth awtistiaeth ac ar y canllaw i wneud yn siŵr eu bod yn gweithio.



- Helpu pobl i ddeall yn well beth ydy anghenion unigryw pobl gydag awtistiaeth.




- Gwneud yn siŵr bod oedolion gydag awtistiaeth a rhieni a gofalwyr plant gydag awtistiaeth yn cymryd rhan yn y gwaith o wneud strategaeth awtistiaeth a chanllaw.

# Pam ein bod angen y Mesur Awtistiaeth (Cymru)



Mae yna lawer o waith wedi'i wneud dros y blynyddoedd diwethaf i wella gwasanaethau i bobl gydag awtistiaeth.




Yn 2008 ysgrifennodd Llywodraeth Cymru y **Cynllun Gweithredu Strategol Anhwylder Sbectrwm Awtistiaeth**. Ac fe wnaethon nhw ei ddiweddaru yn 2016.





Mae llawer o bethau da wedi digwydd oherwydd y strategaeth yma. Ond mae angen gwneud rhagor.

Rydw i'n meddwl bod angen y mesur newydd yma fel bod awdurdodau lleol a gwasanaethau iechyd yn:




- deall beth maen nhw angen ei wneud i roi'r gefnogaeth orau i bobl gydag awtistiaeth



- dal i wneud gwaith da y **Cynllun Gweithredu Strategol**. A dal i wella gwasanaethau i bobl gydag awtistiaeth




- bod â dyletswydd dan y ddeddf i wneud gwasanaethau'n well.




Mae gan Lloegr a Gogledd Iwerddon ddeddfau nawr sydd yn dweud bod rhaid i'w llywodraethau ysgrifennu strategaeth awtistiaeth a chanllaw ar ddilyn y strategaeth.



Rydw i'n credu y dylai fod gan Gymru ddeddf sydd yn dweud bod rhaid i Lywodraeth Cymru ysgrifennu strategaeth awtistiaeth.



Fe fyddai'r strategaeth awtistiaeth yma yn helpu i wneud yn siŵr y bydd yna wasanaethau da bob amser i bobl gydag awtistiaeth yng Nghymru.




Rydw i'n credu y dylai'r ddeddf yma ddweud hefyd bod rhaid i Weinidogion Cymru ysgrifennu canllaw i fynd gyda'r strategaeth awtistiaeth.



Rydw i'n credu y dylai'r ddeddf ddweud bod rhaid i awdurdodau lleol a gwasanaethau iechyd ddilyn y canllaw yma.

# Cael gwell ffordd o adnabod awtistiaeth



I lawer o bobl mae cael diagnosis awtsitiaeth yn ei gwneud hi'n haws i ddeall pa gefnogaeth maen nhw ei angen a chael gwasanaethau.



Rydw i'n credu os oes gennym ni ddeddf sydd yn dweud sut y dylen ni drefnu cael diagnosis ar gyfer awtistiaeth, fe fydd pobl yn gallu cael diagnosis yn haws. Ac fe fyddan nhw'n ei gael pan maen nhw ei angen fwyaf.




Fe fyddai'r ddeddf yn dweud bod **rhaid** i awdurdodau lleol a gwasanaethau iechyd drefnu ffordd glir o gael diagnosis.

# Gwella'r ffordd mae pobl yn cael gwasanaethau cefnogi



Fel arfer mae pobl gydag awtistiaeth yn cael cefnogaeth gan dimau Anabledd Dysgu neu dimau Iechyd Meddwl.



Ond dydy awtistiaeth ddim yn anabledd dysgu. A dydy e ddim yn broblem iechyd meddwl.



Weithiau fe fydd gan berson gydag awtistiaeth anabledd dysgu neu broblem iechyd meddwl.



Ond yn aml iawn mae pobl gydag awtistiaeth yn cael eu gwrthod gan wasanaethau oherwydd nad oes ganddyn nhw anabledd dysgu neu broblem iechyd meddwl.



Yn aml iawn mae hyn yn meddwl nad ydy pobl gydag awtistiaeth yn cael y gefnogaeth maen nhw ei angen.




Mae arna i eisiau'r ddeddf hon er mwyn rhwystro hyn rhag digwydd. Ni all gwasanaethau droi pobl i ffwrdd oherwydd bod ganddyn nhw lefel uchel o ddealltwriaeth (CD) er enghraifft.



Rydw i eisiau i’r ddeddf yma wneud yn siŵr bod awdurdodau lleol a gwasanaethau iechyd yn deall anghenion plant ac oedolion gydag awtistiaeth a darparu gwasanaethau sydd yn ateb eu anghenion.



Ar hyn o bryd mae awdurdodau lleol a gwasanaethau iechyd yn casglu gwybodaeth am anableddau dysgu ac awtistiaeth yn eu hardaloedd.



Rhaid iddyn nhw gadw cofrestr o blant gydag anableddau yn eu hardal. Maen nhw’n gallu gwneud hyn i oedolion hefyd.



Ond efallai nad ydy’r wybodaeth yma yn ddibynadwy iawn. Ac mae gwahanol wybodaeth yn cael ei chasglu mewn gwahanol ffyrdd mewn gwahanol ardaloedd yng Nghymru.



Mae yna berygl hefyd na fydd pobl gydag awtistiaeth heb anabledd dysgu yn cael y gwasanaethau cywir.



Rydw i eisiau i’r ddeddf yma stopio hyn rhag digwydd. Rydw i eisiau i awdurdodau lleol a gwasanaethau iechyd gasglu gwybodaeth am bobl gydag awtistiaeth ar wahân. Rhaid iddyn nhw gynllunio eu gwasanaethau i ateb yr anghenion yma.

# Hyfforddiant awtistiaeth i staff



Mae arna i eisiau i'r ddeddf wneud yn siŵr bod staff sydd angen hyfforddiant ar gyfer awtistiaeth yn ei gael.

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Rydw i'n gwybod bod llawer o staff wedi cael hyfforddiant ar gyfer awtistiaeth yn barod diolch i brosiectau Llywodraeth Cymru.



Ond rydw i'n meddwl y dylai'r ddeddf hon wneud yn siŵr bod staff yn cael yr un canlyniadau o hyfforddiant.




Rydw i'n meddwl y byddai hyn yn ei gwneud hi'n haws i osod **safonau** ar eu hyfforddiant ar gyfer awtistiaeth. Ac i edrych a yw staff yn cael y safon iawn.

**Safon** yw lefel medr neu ddealltwriaeth.




Rydw i'n meddwl y byddai hyn hefyd yn helpu i wneud yn siŵr bod staff yn cael hyfforddiant parhaus.




Rydw i'n credu ei bod yn well i'r canllaw ddweud beth ddylai **canlyniadau** hyfforddiant awtistiaeth fod. Yn lle dim ond dweud beth ddylai'r hyfforddiant fod.



Rydw i'n meddwl y bydd hyn yn helpu gwasanaethau i ddarparu'r math cywir o hyfforddiant awtistiaeth i staff.


# Swyddi i bobl gydag awtistiaeth



Mae Llywodraeth Cymru wedi bod yn gwneud gwaith i helpu cael swyddi i ragor o bobl gydag awtistiaeth.



Ond does gan lawer o bobl gydag awtistiaeth ddim swyddi o hyd. Mae angen inni wneud rhagor.




O dan y **Cynllun Gweithredu Strategol 2016-2020** mae'r Llywodraeth eisiau gwella addysg a gwaith i bobl gydag awtistiaeth. Maen nhw'n bwriadu gwneud hyn trwy:



- rhedeg prosiect o'r enw **Getting Ahead** i helpu pobl ifanc gydag awtistiaeth i gael gwaith;

The National Autistic Society Cymru
Cymdeithas Genedlaethol Awtistiaeth Cymru

- dod yn gyflogwr cyfeillgar i awtistiaeth;



- gweithio gyda bosys a staff cefnogi fel eu bod yn gwybod mwy am awtistiaeth.



# Y diffiniad o awtistiaeth

**Diffinad** o awtistiaeth ydy esboniad o beth ydy awtistiaeth.

Gallai'r diffiniad gael ei ysgrifennu yn:




- y ddeddf (Mesur) ei hun




- yn y strategaeth awtistiaeth




- neu yn y canllaw.




Rydw i'n meddwl y dylai'r diffiniad gael ei ysgrifennu yn y strategaeth awtistiaeth er mwyn gallu ei ddiweddaru pan fydd angen.




Os ydy e'n cael ei ysgrifennu yn y Mesur fe fyddai'n anodd ei ddiweddaru yn y dyfodol..

# Faint y gallai fy Mesur gostio

Mae'r rhan fwyaf o ddeddfau yn costio arian mewn rhyw ffordd.  Rydw i'n meddwl mai'r pethau fydd yn costio arian yn y ddeddf yma fydd:



- cael gwybodaeth ac ysgrifennu strategaeth awtistiaeth;




- edrych ar, a diweddaru'r strategaeth  a dweud wrth bobl am y newidiadau;




- ysgrifennu a rhannu'r canllaw;




- y pethau ychwanegol y bydd rhaid i awdurdodau lleol a gwasanaethau iechyd eu gwneud oherwydd y ddeddf yma;



- darganfod ffordd o gael gwybodaeth am faint o bobl sydd ag awtistiaeth a beth ydy eu hanghenion nhw;



- hyfforddiant i staff sydd ei angen.




Mae’r **Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014** yn dweud bod rhaid i awdurdodau lleol roi i bobl gydag awtistiaeth a’u teuluoedd a’u gofalwyr:



- gwasanaethau gwybodaeth;
- gwasanaethau cynghori;
- gwasanaethau cefnogi.




Gallai awdurdodau lleol roi gwybodaeth am eu gwasanaethau i bobl gydag awtistiaeth fel rhan o hyn. Dydy hyn ddim yn mynd i gostio llawer mwy o arian.




Mae’r **Cynllun Cyflenwi Anhwylder Sbectrwm Awtistig wedi’i Ddiweddaru 2016-2020** yn dweud hefyd bod rhaid i wasanaethau iechyd roi cyngor a chefnogaeth i bobl gydag awtistiaeth a theuluoedd a gofalwyr.




Dydw i ddim yn meddwl y byddai’n costio llawer mwy i gynnwys codi ymwybyddiaeth hefyd.

# Sut y gallai fy Mesur arbed arian




Weithiau mae deddfau newydd yn gallu helpu i arbed arian.




Fe wnaeth y **Swyddfa Archwilio Genedlaethol** ysgrifennu adroddiad am gefnogi pobl gydag awtistiaeth.




Dywedodd yr adroddiad os oes gan bobl gydag awtistiaeth y gefnogaeth gywir, gallai'r Llywodraeth arbed arian yn y tymor hir.

# Pethau eraill i feddwl amdanyn nhw



Mae'n bwysig nad ydy'r Mesur yma yn cael effaith ddrwg ar bobl. Fe fyddaf yn edrych ar sut y gallai'r mesur yma effeithio ar:



- pobl gydag awtistiaeth
- staff gwasanaethau cefnogi
- cyrff
- pobl eraill.

# Geiriau anodd

## Diagnosis

Diagnosis ydy pan mae meddyg yn edrych ar iechyd ac ymddygiad person ac yn dweud os oes ganddyn nhw awtistiaeth neu beidio.

## Diffiniad

Diffinad o awtistiaeth ydy esboniad o beth ydy awtistiaeth.

## Canllaw

Canllaw ydy cyngor a gwybodaeth. Fe fydd yn cael ei ysgrifennu. Fe fydd yn helpu i esbonio beth ydy'r gyfraith. Ac fe fydd yn dweud sut mae dilyn y strategaeth awtistiaeth.

## Safon

Safon ydy lefel sgil neu ddealltwriaeth.

## Strategaeth

Mae strategaeth yn gynllun sy'n dweud beth y byddwn ni'n ei wneud i gyrraedd ein nod i gael y gefnogaeth sydd eu hangen arnyn nhw i bobl ag awtistiaeth.